# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos am 7.00pm Nos Fercher 28ain o Chwefror 2024**

1. Presennol Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng J Pierce Cyng D Jones-Morris Cyng B. Jones Cyng I Ellis a'r Clerc

2. Ymddiheuriadau Cyng J Lewis,

3 Cod Ymddygiad
Cyng L A James yn datgan ei bod yn aelod/ymddiriedolwr ar Bwyllgor Rheoli Canolfan Penrhos

4 Cofnodion Cyfarfod diwethaf 31 -01-2024
Derbynnwyd fel cofnodion cywir ar gynnig Cyng D Jones-Morrisgafodd ei eilio gan y Cyng J Pierce

5 Materion yn codi o'r cofnodion
Cysylltiadau trydannol heb eu gosod oherwydd diffyg gallu prynu y goleuadau cyn y Nadolig
Symud ymlaen i osod a prisio gosod 6 arall ar gyfer 24 - 25

6 Adroddiad Ariannol
a. Mantolen Ariannol 'Roedd yr adroddiad ariannol wedi ei rhanu yn dangos £11,671-99 yn y cyfrif cyfredol a £40,784-12 yn y cyfrif cadw

7 Cofrestr Risg/Polisia
a. Diweddariad o'r Cyngor Llawn Bu trafodaeth yn y Cyngor llawn am fformat y gyfrestr a felly yn hytrach na'i anfon i'w chyfieithu cytunwyd y byddai'r Is-Grwp yn trafod os oedd angen newid y fformat ai peidio
b. Camau nesaf
Gweler uchod a hefyd mae'r grwp am edrych ar y risgiau oedd wedi eu ysgrifennu mewn coch ar y gofrestr

8 Cadarnhawyd y Taliadau canlynnol
Cyflog £ 651.84 H M R C £ 163.00 Cymen Cyfieithu Ionawr £ 196.66
Gamlins £1,936.44

9 Ceisiadau Nawdd
Clwb Peldroed ieuectid Penrhosgarnedd Argymell cyfraniad o £300 tuag at eu costau i adnewyddu eu blychau cymorth cyntaf
Dawns i Bawb Tra bod y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo cyfrannu £150 oherwydd cyswllt hefo Ysgolion Lleol bu i'r Clerc geisio cysylltu a'r person anfonodd y cais er mwyn gweld yn union i ble dylsa ni anfon yr arian/siec ond heb dderbyn ymateb
Clerc i barhau i geisio cael cyswllt

Gwariant 23-24
Eglwys St Cedol at dori'r fynwent Bu cryn drafod ar hyn oherwydd nad oes amcanbris a son mae gwirfoddolwyr sy'n bwriadu cario y gwaith allan – Ni ellir cyfrannu onibai ein bod yn hyderus fod y gwirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant addas i wneud y gwaith

10 Prosiectau
a) Ysgol Y Faenol Dim diweddariad pellach ond ymgais o gyswllt cyfreithiol rhwng Gamlins a Chyngor Gwynedd wedi methu oherwydd salwch a gwyliau blynyddol
b. Capel y Fynwent Y cynlluniau wedi eui rhannu i'r ddau gontractwr oedd wedi rhoi amcanbris fisoedd yn ol

11 I’w trafod hefyd

Cysgodfan Bws Bryn Ogwen Y mater gwrthwynebu bellach yn nwylo Trafnidiaeth Cymru sydd wedi datgan fod angen y gymuned yn gryfach na’r gwrthwynebydd

Costau torri gwair 2024-25
Contarctwr torri gwair wedi gwneud cais i godi ei brisiau yn unol a chwyddiant
Argymell i’r Cyngor Llawn ei bod yn derbyn y prisiau newydd o gofio hefyd fod canmol am safon ei waith yn y fynwent ag ar y llwybrau

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.10